

## PRYCE-JONES, Syr PRYCE (PRYCE JONES hyd 1887; 1834 - 1920), arloeswr – busnes archebu drwy'r post

**Enw:** Pryce Pryce-jones  
**Dyddiad geni:** 1834  
**Dyddiad marw:** 1920  
**Priod:** Eleanor Rowley Pryce-Jones (née Morris)  
**Plentyn:** Mary Eleanor Pryce-Jones  
**Plentyn:** Edward Pryce-Jones  
**Plentyn:** Elizabeth Anne Pryce-Jones  
**Plentyn:** William Ernest Pryce-Jones  
**Plentyn:** Albert Westhead Pryce-Jones  
**Plentyn:** Katharine Charlotte Pryce-Jones  
**Plentyn:** Agnes Rosa Pryce-Jones  
**Plentyn:** Henry Morris Pryce-Jones  
**Rhiant:** William Jones  
**Rhiant:** Mary Ann Jones (née Goodwin)  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** arloeswr busnes archebu drwy'r post  
**Maes gweithgaredd:** Diwydiant a Busnes  
**Awdur:** Maurice Richards

Ganwyd yn Pryce Jones, 16 Hydref 1834, ail fab William Jones, cyfreithiwr yn Y Drenwydd, Trefaldwyn, a Mary Ann Goodwin, merch cefnder Robert Owen, y diwygiwr cymdeithasol. Wedi ei brentisio yn 12 oed i ddilledydd yn Y Drenwydd sefydlodd ei fuses ei hun yn 1859, y flwyddyn y priododd Eleanor Rowley Morris. Cychwynnodd ei fuses archebu drwy'r post drwy anfon patrymau at foneddigion lleol, wedyn restri o nwyddau ac yn ddiweddarach catalogau at bobl o bob dosbarth ym mhob rhan o'r byd, gan wahodd archebion drwy'r post. O'r 1860au ymlaen bu'n arddangos gwlanem enwog Y Drenwydd yn yr Eisteddfod Genedlaethol ac mewn arddangosfeydd pwysig yn ninasoedd mwyaf y byd - Paris, Brwsel, Berlin, Fienna, Melbourne, a Philadelphia yn eu plith - gan ennill nifer o wobrwyon a denu llawer iawn o archebion nes y gallai honni fod ganddo dros 300,000 o gwsmeriaid ledled y byd, gan gynnwys Florence Nightingale, y Frenhines Victoria, ac aelodau o ymrw bob teulu brenhinol yn Ewrob. Gwnaeth ddefnydd helaeth o'r rheilffyrdd i ddosbarthu ei nwyddau, gan ddatblygu ei system post parseli ei hun a rhoi cyngor i'r llywodraeth cyn iddynt gyflwyno Mesur Parseli'r Swyddfa Bost 1882. Yn 1879 agorodd ystordy newydd, gwych ger gorsaf rheilffordd Y Drenwydd.

Urddwyd ef yn farchog ym mlwyddyn jiwbil'i'r Frenhines Victoria (1887), pryd y newidiodd ei enw i Pryce Pryce-Jones. Cynrychiolodd Fwrdeistrefi Trefaldwyn fel A.S. (C) 1885-86 ac 1892-95, a bu'n Uchel Siryf ei sir yn 1891. Bu farw yn y Drenwydd 11 Ionawr 1920, a chladdwyd ef ym mynwriad eglwys Llanllwchaearn.

### Awdur

Maurice Richards, (1921 - 1989)

### Ffynonellau

*The Biograph* (1880), 206-8

amryw rifynnau o *The Montgomeryshire Express*

### Darllen Pellach

T. Marchant Williams, *Welsh Members of Parliament, 1894* (Cardiff 1894)

Archifau LIGC: *To the Free and Independent Electors of the Montgomery Boroughs... 1880*

Archifau LIGC: *Montgomery Boroughs Election. Vote for Price Jones*

BBC News: *Christmas: The mail order pioneer who started a billion-pound industry* (cyrchwyd Rhagfyr 2020)

Erthygl Wicipedia: *Pryce Pryce-Jones*

Erthygl Wicipedia: *Edward Pryce-Jones*

Erthygl Wicipedia: [Albert Westhead Pryce-Jones](#)

Erthygl Wicipedia: [Henry Morris Pryce-Jones](#)

## Delweddau

John Owen, [Major \[Edward\] Pryce Jones](#)

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q7253236](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1997

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

[PDF](#) [Argraffu](#) [Cyfeirnodi](#)

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian am ragor o wybodaeth](#).

 frannu

Arddull APA

x

Richards, M., (1997). PRYCE-JONES, Syr PRYCE JONES hyd 1887; 1834 - 1920, arloeswr busnes archebu drwy'r post. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 9 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c5-PRYC-PRY-1834>

 Copio i'r clipwredd

Preifatrwydd a Chwics  
Hawlfraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LLGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Nodleian  
Llywodraeth Cymru  
Government by  
Welsh Government